

## **Adroddiad ar ôl Ymgynghoriad – Diweddariad Mai 2018**

### **Dorchester Avenue a Winchester Avenue - Rhwystrau Ymwthiol ar Gyffordd Ddyrchafedig**

**Rhif y Project: CO17126**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar gynigion y cynllun uchod rhwng 19 Medi a 3 Hydref 2017 a'i ddiben oedd casglu gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun a mynd i'r afael â phryderon lleol os yw'n bosibl.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori hwn yr argymhelliad ar gyfer y cynllun oedd:

*O ystyried yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** gyda'r cynllun, yn amodol ar y cyllid fydd ar gael. Bydd y cynllun yn cyflwyno cyffyrdd dyrchafedig gyda rhwystrau ymwthiol o gwmpas cyffyrdd Dorchester Avenue a Winchester Avenue a bydd hefyd yn cyflwyno llinellau melyn dwbl i nodi "Dim Aros ar Unrhyw Adeg".*

Fel rhan o'r broses i gyflawni'r cynllun hwn, caiff ei anfon at ein Tîm Dylunio Adeiladu a Chyflawni er mwyn ymgymryd â dyluniad manwl ar gyfer y cynllun hwn. Fel rhan o'r gwaith dylunio manwl, ymgymrir ag arolygon "craidd" sy'n golygu twll yn cael ei ddrilio i mewn i'r briffordd er mwyn asesu adeiladwaith y lôn gerbydau i weld a yw'n addas i adeiladu byrddau arafu arni. Dangosodd canlyniadau'r arolwg craidd nad yw'r lôn gerbydau'n ddigonol i adeiladu byrddau arafu arni ac felly byddai'n rhaid ailadeiladu'r lôn gerbydau yn llawn ar bob un o'r pedair cyffordd hyn.

Mae'r adeiladwaith llawn ar y lôn gerbydau yn ychwanegu cost sylweddol i'r cynllun arfaethedig. Roedd y gost i gyflawni'r cynllun gydag adeiladwaith llawn ar y lôn gerbydau yn sylweddol uwch na'r arian A106 (Adran 106) a ddyrannwyd i gyflawni'r cynllun hwn. Nid oeddem yn gallu sicrhau unrhyw arian ychwanegol i gyflawni'r cynllun hwn gan nad yw'r cynllun yn cael ei ariannu o'n Cronfeydd Cyfalaf Cyffredinol.

Felly rydym wedi gofyn i'r tîm dylunio manwl gynhyrchu amcangyfrif o'r gost o gyflwyno rhwystrau ymwthion yn unig ar bob un o'r pedair cyffordd heb unrhyw fyrddau arafu. Daeth y cynllun gostyngedig yn ôl o fewn arian a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun hwn. Tra ein bod yn anelu at gyflawni'r cynllun cyfan, dywedodd ein hadroddiad ymgynghori fod y cynllun hwn yn "amodol ar gyllid sydd ar gael".

Oherwydd y materion cyllido hyn, gwnaethom gysylltu ag Aelodau'r Ward Lleol er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf iddynt am y cynllun a rhoi gwybod iddynt am ein hargymhelliad i barhau â'r cynllun heb gyflwyno'r byrddau arafu. Bellach rydym wedi derbyn cefnogaeth y mwyafrif gan Aelodau'r Ward Lleol i barhau â'r cynllun llai ac felly caiff y cynllun ei symud ymlaen bellach.